# Proffil Rôl Is-gadeirydd y Panel Myfyrwyr-Staff

Atodiad 3

## Wedi'i gefnogi gan

- Swyddogion Sabothol
- Tîm  Llais y Myfyriwr
- Cydlynydd Cynrychiolwyr y Myfyrwyr

## Amcan y Rôl:

Gweithio'n agos gyda'r Cadeirydd a'r Cydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr (SRC) i sicrhau bod y Paneli Myfyrwyr-Staff (SSPs) yn drefnus ac yn effeithiol.

## Cyfrifoldebau

- Mynychu Hyfforddiant  Is-Gadeirio gydag Undeb y Myfyrwyr
- Cymryd rôl a dyletswyddau'r Cadeirydd os bydd yn absennol o'r Paneli Myfyrwyr-Staff
- Cadarnhau camau gweithredu sy'n deillio o gyfarfodydd.
- Cefnogi'r Cadeirydd wrth bennu'r dyddiad ar gyfer y Paneli Myfyrwyr-Staff, a chadarnhau'r agenda ymlaen llaw
- Gweithio gyda'r Cadeirydd i wahodd staff a myfyrwyr perthnasol i'r Paneli Myfyrwyr-Staff
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Cadeirydd a'r Cydlynydd Cynrychiolwyr y Myfyrwyr
- Hyrwyddo ymddygiad proffesiynol yn y Paneli Myfyrwyr-Staff
- Mynychu Fforymau Colegau gyda Deoniaid y Colegau, lle y bo'n briodol

## Cyfleoedd i Ddatblygu

- Derbyn tystysgrif
- Ymgysylltu â Gwasanaeth Datblygu Sgiliau Undeb y Myfyrwyr
- Dod yn Bencampwr Lles
- Ymuno â Phwyllgor Gweithredol y Swyddogion Sabothol
- Mynd i Gynhadledd Cynrychiolwyr Academaidd
- Arloesi prosiect ysgol
- Enwebu dy hun yn etholiadau Undeb y Myfyrwyr
- Cael eich enwebu ar gyfer Gwobr Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr

## Gwerthoedd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

**Arweinyddiaeth gan Fyfyrwyr:**

Byddwn ni'n sicrhau bod myfyrwyr yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel ar draws y sefydliad, ac yn teimlo bod ganddynt y grym i greu newid

**Cynhwysiant**

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n holl aelodau o fyfyrwyr, drwy leihau'r rhwystrau i gymryd rhan ac estyn allan i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol

**Partneriaeth**

Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n datblygu partneriaethau effeithiol gyda sefydliadau sy'n ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau strategol.

**Amrywiaeth**

Byddwn yn dathlu amrywiaeth ein staff ac aelodaeth myfyrwyr, a byddwn yn cefnogi myfyrwyr i fod yn llais dros newid mewn anghyfiawnderau heriol ledled addysg a chymdeithas.

**Yn eich rôl fel Cynrychiolydd Academaidd, NID oes disgwyl i chi ddelio â:**

- Anghydfod rhwng myfyrwyr a staff academaidd e.e. aflonyddu,
- Gweithdrefnau ffurfiol e.e. methiannau arholiadau, apeliadau academaidd, gwrandawiadau unigol, amgylchiadau esgusodol, cymhwysedd i ymarfer
- Ymholiadau ariannol, cyllido
- Problemau lles, materion iechyd a phersonol e.e. tai, cyflogaeth a mewnfudo.

Os bydd myfyriwr yn dod atoch gyda phroblem, ac rydych yn ansicr i ble y dylid ei gyfeirio, cysylltwch â studentreps@caerdydd.ac.uk.